PROSIECT:

# RAMP BEICIAU GLYN CEIRIOG

YMGEISYDD:

## CYNGOR CYMUNED GLYN CEIRIOG

NIFER Y RHANDDEILIAID A FU'N YMWNEUD Â'R PROSIECT
**91**

LLEOLIAD
**DYFFRYN CEIRIOG, WRECSAM**

CYFANSWM GWERTH Y PROSIECT
**£23,226.90**

## Y GRONFA CYMUNEDAU GWYRDD



Bwriad y Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, yw cefnogi gwelliannau i weithgareddau awyr agored ar gyfer y gymuned, a'r adnoddau cysylltiedig.

Gan ddefnyddio'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, rhoddwyd cymorth i 30 o ardaloedd yn siroedd Dinbych, Conwy, Y Fflint a Wrecsam i drawsnewid llecynnau awyr agored yn fannau lle bydd bywyd gwyllt yn ffynnu a chreu mannau dymunol i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae rhai grwpiau wedi dewis gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar i ostwng allyriadau carbon a helpu i leihau biliau tanwydd.

## Y PROSIECT

Mae pentref Glyn Ceiriog wrthi'n brysur yn gwella ei barc lleol gyda ffocws ar anghenion y gymuned. Derbyniwyd cefnogaeth Cadwyn Clwyd i wneud y gwaith.

Gydag arian ac arweiniad Cadwyn Clwyd, llwyddodd y cyngor cymuned i lunio trac beicio ym mharc y pentref gan ymgorffori nodweddion cyfeillgar i fywyd gwyllt yr ardal.



## NODAU'R PROSIECT

Glyn Ceiriog yw'r pentref mwyaf yn y dyffryn ac mae'r ramp yn rhan o gynllun ehangach i ddarparu adnoddau pwrpasol i'r trigolion heb iddynt orfod teithio i fannau eraill tu allan i'r ardal.

Penderfynwyd llunio trac beiciau ar ôl ymgynghori â grŵp o bobl ifanc Glyn Ceiriog a'u rhieni, gyda'r nod o leihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn y fro.

Lluniwyd y ramp i fod yn addas ar gyfer beicwyr o bob oed gan dderbyn cefnogaeth Cadwyn Clwyd trwy gydol y broses.

CYMUNEDAU GWYRDD
GREEN COMMUNITIES

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## GWEITHGAREDD

Bu Cadwyn Clwyd yn helpu'r cyngor i ganfod deunyddiau meddal ar gyfer adeiladu'r ramp. Cawsamt ei cefnogaeth hefyd i gynnal asesiadau iechyd a diogelwch yn unol â safonau'r Gymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau (RoSPA) a dilyn gofynion rheoliadau bywyd gwyllt yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Yn ystod y cynllun dwy flynedd, crëwyd llwybr 100 metr ar hyd ochr cae rygbi'r parc a gosodwyd ffensys newydd i ganiatáu i ffermwyr lleol adael i'w defaid bori'n ddiogel yn y parc.

Hefyd cyflwynwyd dwy fainc bicnic a wnaed yn gyfan gwbl o gynwysyddion llaeth wedi eu hailgylchu, gan sicrhau bod digon o le ar gyfer mynediad mewn cadair olwyn.

I wella amgylchedd naturiol y parc, cynhaliwyd arolwg bioamrywiaeth gan y cyngor er mwyn dewis y coed a'r planhigion a fyddai'n tyfu orau fel bod bywyd gwyllt y parc yn ffynnu.

Yna bu plant yr ysgol leol, Ysgol Cynddelw, yn helpu i blannu derwen goch, drain gwynion a gwelyau rhosod, ynghyd â gosod blychau adar newydd.



## CANLYNIADAU

Gyda phlant y pentref yn gorfod llunio eu llwybrau beicio eu hunain neu fynd ar y ffordd fawr, roedd croeso mawr i'r bwriad i greu adnodd a fyddai yn eu cadw rhag beicio ar y stryd.

Meddai clerc y cyngor cymuned, Jean Davies, sydd wedi ei hargymell ar gyfer anrhydedd i gydnabod ei hymrwymiad i'r ardal:

"Mae'n braf medru ymateb yn gadarnhaol i ddymuniad y trigolion lleol. Bellach mae llawer mwy o deuluoedd yn defnyddio'r parc i ddilyn gweithgareddau awyr agored ar garreg eu drws.

"Fel cyngor cymuned yn hytrach nag elusen, mae'n anodd gwybod pa grantiau mae gennym i'w derbyn. Ac felly rydym yn ddiolchgar dros ben i Gadwyn Clwyd am eu harweiniad parhaus sydd yn ein galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y ffynonellau arian posibl."

Ychwanegodd y cynghorydd cymuned Trevor Bates: "Mae'r canlyniadau tu hwnt i'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl gyda llawer iawn o bobl o bob oed yn mwynhau'r parc, a llais y gymuned wedi bod yn amlwg o'r dechrau.

"Gobeithio y byddwn yn parhau i weld manteision y prosiect am flynyddoedd i ddod. Byddwn yn gwarchod ein bioamrywiaeth drwy gynnal archwiliadau blynyddol a gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd."

***"ROEDDEM YN FFODUS DROS BEN O DDERBYN CYMORTH CADWYN CLWYD I WELLA BIOAMRYWIAETH YR ARDAL AC YMGYNGORI Â'R GYMUNED. HEBDDYNT, BYDDAI'R PROSIECT YN DAL YN EI GYFNOD CYNLLUNIO."***

***- TREVOR BATES***

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales